




# Amser Maith Maith yn Ôl

## Y DYNIAETHAU

- Cymharu bywyd bob dydd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf â bywyd bob dydd heddiw, e.e. cartref, bwyd, siopa, dathliadau, cerddoriaeth – ffordd o fyw.
- Cymharu pethau tebyg a gwahanol rhwng dathliadau ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf a heddiw, e.e. dillad, cerddoriaeth.
- Cymharu sut mae pobl yn derbyn negeseuon, e.e. papur newydd, teledu, ffôn symudol. 
- Dysgu am effaith y rhyfel ar y milwyr, e.e. rhai milwyr wedi colli pwysau, wedi'u hanafu. 
- Dysgu am arwyddocâd 11 o'r gloch ar yr unfed diwrnod ar ddeg o'r unfed mis ar ddeg (11/11/1918) – amser a dyddiad diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Dysgu am sut roedd pobl wedi dathlu diwedd y rhyfel.
- Sut mae pobl yn cofio diwedd y rhyfel heddiw? 
- Cymharu dillad ddoe a heddiw, e.e. Gwen a Tomi yn gwisgo eu dillad gorau yn y parti.

## LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU

- Creu rhestr o'r pethau sydd angen eu gwneud cyn y parti.
- Ysgrifennu e-bost/ neges trydar er mwyn rhoi gwybod bod y rhyfel ar ben.
- Ysgrifennu deialog syml yn disgrifio pobl yn cael gwybod am ddiwedd y rhyfel, e.e. Sam y postmon yn darllen papur newydd.
- Darllen gwybodaeth syml am ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, e.e. ar y we.
- Ysgrifennu dyddiadur diwrnod Tomi neu Gwen, e.e. Codais yn gynnar... Cefais... Gwelais... Rhedais.. Cogiais ... Teimlais...

## Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

- Celf – edrych ar ffotograffau o bobl yn dathlu diwedd y rhyfel – braslunio llun tebyg.
- Celf – creu baneri ar gyfer dathliad arbennig, e.e. baner Cymru, 'bunting' (Eisteddfod yr Urdd).
- Drama – chwarae rôl – paratoi at y parti, gwneud a gosod y baneri, Tomi a Gwen yn cyfarch y milwyr sydd wedi cyrraedd adre, Gwen a Tomi yn dawnsio yn y parti.
- Cerddoriaeth – gwrando ar gerddoriaeth o'r cyfnod a'i chymharu â cherddoriaeth heddiw.

## GWYDDONIAETH A THECHNOLEG

- Dylunio poster yn hysbysebu digwyddiad, e.e. parti yn yr ysgol.
- Dysgu sut mae rhai pethau'n gweithio, e.e. cloc, oriawr boced.
- Coginio bwyd ar gyfer y parti.
- Dysgu sut mae pethau'n newid wrth oeri neu wresogi.
- Adnabod ac enwi priodweddau deunyddiau gwahanol, e.e. gwydr, pren.
- Creu ffilm ar gyfer rhaglen newyddion yn nodi diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf – sgrin werdd.

Cyfes 2  
Rhaglen  
12

## Y Rhyfel Byd Cyntaf 'Nôl Adre

### MATHEMATEG A RHIFEDD

- Pwysu a mesur cynhwysion ar gyfer gwneud bwyd i'r parti.
- Adnabod ac enwi siapiau gwahanol, e.e. triongl, sgwâr, baneri.
- Amser – problemau syml yn ymwneud ag amser teithio o un man i'r llall.
- Amser – problemau syml yn ymwneud ag amser, e.e. amser coginio cacen.

### IECHYD A LLES

- Sut rydych chi'n teimlo wrth ddatlu? Cyn, yn ystod, ac ar ôl y dathliad.
- Dysgu dawns syml, e.e. dawns Tomi a Gwen yn y parti. Dawnsio gwerin.
- Beth yw eich hoff lun yn y byd? Pam?



Rhestr ddwyieithog o gwestiynau allweddol, geirfa, termau allweddol.

Allwch chi ddod o hyd i...?

*Can you find...?*

Beth sy'n digwydd?

*What's happening?*

Beth allwch chi ei ddweud am...?

*What can you say about...?*

Beth wnaethoch chi ei ddarganfod am...?

*What did you find out about...?*

Beth arall hoffech chi ei wybod am...?

*What else would you like to find out about ...?*

Y Rhyfel Byd Cyntaf     *The First World War*

milwyr     *soldiers*

dathlu     *celebrate*

parti     *party*

baneri     *bunting*

dawnsio     *dancing*

cerddoriaeth     *music*

